**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021**

**ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

1. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Bydd y cynnig hwn yn galluogi grwpiau penodol o ddysgwyr i ailddechrau cael gwersi wyneb yn wyneb ar 22 Chwefror 2021.

Derbyniwn yn llwyr fod unrhyw newid i drefniadau addysgol yn cael ystod eang o effeithiau ar grwpiau gwahanol. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr, eu teuluoedd, a'r rhai sy'n darparu addysg.

**Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol,* Hydref 2020**

Fel rhan o'i gyfres o adroddiadau *A yw Prydain yn Decach?* , mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn edrych ar y ffyrdd y mae'r pandemig wedi effeithio ar grwpiau gwahanol. Amlinellir rhai o'r prif ganfyddiadau o ran cau ysgolion a dysgu o bell isod.

> *"Mae yna berygl gwirioneddol o 'genhedlaeth COVID' coll wrth i bobl ifanc golli allan ar addysg a bod yn debygol o wynebu'r colledion swyddi mwyaf.*
>
> *"Mae'r amrywiaethau mewn cefnogaeth ar gyfer dysgu o bell yn ystod y pandemig yn bygwth lledaenu'r anghydraddoldeb ar gyfer y rhai sydd eisoes yn perfformio'n llai da na'u cyfoedion, yn arbennig bechgyn, disgyblion duon, rhai disgyblion Sipsiwn, Roma a theithwyr, disgyblion sydd angen cefnogaeth mewn addysg, a'r rhai sydd dan anfantais economaiddgymdeithasol.*
>
> *"Mae'r ymateb i'r pandemig wedi creu bylchau yn addysg y mwyafrif o blant ym Mhrydain. Mae'r bylchau hyn yn bygwth cyrhaeddiad ar lefel cynradd ac uwchradd.*
>
> "*Mae bechgyn yn dal i berfformio'n waeth na merched ac mae cyrhaeddiad plant sydd â SEND/ASN/ADY yn llawer is na'r rhai heb anghenion o'r fath.*
>
> *"Mae gan ddisgyblion duon lefelau cyrhaeddiad is na grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill, er bod disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dal i fod â'r lefelau cyrhaeddiad isaf o unrhyw grŵp ethnig o swm arwyddocaol.*

*“Mae plant sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu o ardaloedd o amddifadedd yn perfformio’n is na’r cyfartaledd. Mae perygl y bydd y grwpiau hyn yn colli tir pellach. Mae yna hefyd anghydraddoldeb o ran faint o amser a dreulir ar ddysgu yn y cartref, gyda rhywfaint o arwydd bod bechgyn yn treulio llai o amser ar ddysgu yn y cartref na merched.*

*“Awgryma ymchwil nad oedd gan 20% o ddisgyblion ar brydau ysgol am ddim yn y Deyrnas Unedig fynediad at gyfrifiadur yn y cartref, o gymharu â 7% o blant eraill.*

*“Yng Nghymru mae yna hefyd bryderon nad yw disgyblion sy’n mynychu ysgolion cyfrwng Gymraeg ac nad oes ganddynt rieni sy’n siarad Cymraeg yn cael digon o sylw.”*

Rydym wedi nodi rhai effeithiau penodol yn ôl nodwedd warchodedig, a restrir isod.

**Dychwelyd i safle'r ysgol**

Mae trywydd y feirws yn golygu y bydd angen cymryd camau gwarchod tan 31 Mawrth 2021. Disgwyliwn i blant, pobl ifanc a staff sy'n gwarchod barhau i wneud hynny, oni fydd eu meddyg teulu neu ddarparwr gofal iechyd yn dweud y gallant ddychwelyd. Mae pawb yn y pedwar grŵp â blaenoriaeth cyntaf wedi cael eu brechu erbyn hyn.

O ran y gweithlu addysgu a chynorthwywyr ystafell ddosbarth, bydd yn bwysig i arweinwyr ysgol ystyried opsiynau ymarferol i'r aelodau hyn o staff wrth i staff eraill a disgyblion ddychwelyd i'r ysgol, neu sut y gall yr aelodau hyn o staff gefnogi dysgu gartref orau, a'r gyfran o'u staff y gall hyn effeithio arnynt. Dylai effaith y mesurau hyn hefyd gael ei hystyried yng nghyd-destun llesiant staff.

Er mwyn sicrhau parhad addysg, gan alluogi athrawon i aros gartref lle y bo angen hefyd, a sicrhau nad yw llwyth gwaith athrawon yn tyfu, mae awdurdodau lleol wedi cael cymorth i nodi adnoddau staffio ychwanegol. Gall hyn gynnwys:

- Darparu cymorth ariannol drwy'r Gronfa Galedi
- Sicrhau bod staff cyflenwi yn cael eu defnyddio'n llawn
- Mae'r Rhaglen Dysgu Carlam gwerth £29m yn helpu ysgolion i ddarparu staff addysgu ychwanegol i gefnogi dysgwyr yn ystod COVID-19.

Mae'r canllawiau gweithredol i ysgolion pan fydd cyfyngiadau ar niferoedd dysgwyr yn amlinellu cyfres o gamau lliniaru pwysig y gofynnir i awdurdodau lleol ac ysgolion eu cyflwyno. Yn eu plith mae asesiadau risg, Pecyn Cymorth BAME, trefniadau glanhau trylwyr, hylendid dwylo ac anadlol da, mesurau awyru, y defnydd o orchuddion wyneb 3 haen o ansawdd uchel lle y bo'n briodol, parhau i gadw llygad am symptomau, a gwyliadwriaeth, profion a rheoli achosion.

Ar gyfer aelodau eraill o'r gweithlu, gan gynnwys glanhawyr, staff arlwyo a thechnegwyr, bydd angen gwneud ystyriaethau tebyg er mwyn sicrhau y gall staff ddychwelyd i'r gwaith yn ddiogel, gan fod yn ymwybodol o'r ffactorau sy'n unigryw i bob rôl.

Mae'r canllawiau gweithredol i ysgolion pan fydd cyfyngiadau ar niferoedd dysgwyr yn nodi y dylai asesiadau risg gael eu cwblhau a all ystyried hylendid, awyru, symudiadau staff a disgyblion yn ogystal â chadw pellter cymdeithasol, defnyddio gorchuddion wyneb 3 haen o ansawdd uchel lle y bo'n briodol, parhau i gadw llygad am symptomau, a gwyliadwriaeth, profion a rheoli achosion.

Dyrannwyd £5 miliwn i helpu awdurdodau lleol i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gadael i ddysgwyr ddychwelyd yn raddol, gan gynnwys mwy o awyru, prynu gorchuddion wyneb a darparu canopïau fel bod mannau ychwanegol ar gael sydd wedi'u hawyru ac addasu adeiladau ysgol.

**Anabledd**

**Staff ag anableddau**

Mae'n debygol y bydd angen i fwy o staff ysgol/AB sydd ag anableddau corfforol gymryd rhagofalon wrth ddychwelyd i'r ysgol/coleg na staff heb anabledd.
Yn achos aelodau o staff ag anghenion cymorth ychwanegol, bydd yn bwysig i unrhyw newidiadau i'r drefn arferol gael eu cyfleu'n glir.

**Llesiant meddyliol staff**

Efallai fod y penderfyniad i gau ysgolion wedi cael mwy o effaith ar lesiant staff â salwch meddwl na'u cyfoedion. Gall yr un grŵp o bobl fod yn gofidio mwy am adael i

ddysgwyr ddychwelyd yn raddol. Nodir cymorth o ran iechyd meddwl a llesiant meddyliol yn y Canllawiau gweithredol i ysgolion.

**Rhyw**

**Cyfrifoldebau gofalu**

Mae athrawesau yn fwy tebygol o fod wedi gorfod cydbwyso cyfrifoldebau gofalu â chefnogi dysgu gartref wrth weithio o gartref neu wrth weithio yn yr ysgol yn cefnogi dysgwyr agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol. Wrth i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol yn raddol, bydd staff sy'n rhieni neu'n ofalwyr yn dibynnu ar ofal plant fel eu bod yn gallu ailafael yn eu patrymau gwaith blaenorol eu hunain.

Mae menywod sy'n famau neu'n ofalwyr, ac sy'n cyfrif am fwy o'r gweithlu addysg, er enghraifft cynorthwywyr dysgu a glanhawyr, hefyd yn debygol o ddibynnu ar ofal plant i'w galluogi i ailddechrau gweithio eu horiau contract.

**Diogelwch a llesiant menywod**

Mae risg y bu cynnydd mewn cam-drin domestig yn ystod y cyfyngiadau symud. I'r menywod dan sylw, mae cael dychwelyd i'r gweithle yn debygol o fod yn beth cadarnhaol ar y cyfan, ond dylid sicrhau bod cymorth ar gael ar gyfer yr aelodau o staff hyn.

**Iechyd menywod**

Ar unrhyw un adeg, bydd cyfran o'r gweithlu addysg sy'n fenywod yn delio ag effeithiau'r menopos a materion iechyd mislif eraill fel endometriosis, a all fod yn wanychol yn aml. Gall straen, sydd wedi cynyddu i rai yn ystod y cyfyngiadau symud, waethygu nifer o'r symptomau sy'n gysylltiedig â'r cyflyrau hyn, ac efallai y bydd yn heriol dychwelyd i ysgol sydd wedi'i haildrefnu lle y gallai mynediad i doiledau fod wedi newid. Gyda gweithleoedd yn dod yn 'ystyriol o'r menopos', dylai ysgolion ystyried sut y maent yn cynnig cymorth yn hyn o beth.

**Ailbennu rhywedd**

Efallai y bydd aelodau o'r gweithlu sy'n drawsryweddol wedi profi oedi i'w triniaeth cadarnhau rhywedd oherwydd COVID-19, a allai gael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Nid oes data ar gael ar nifer yr aelodau o staff sydd dan sylw.

**Beichiogrwydd a mamolaeth**

Dylai aelodau o'r gweithlu sy'n feichiog barhau i ddilyn y canllawiau diweddaraf a roddir yn y canllawiau gweithredol i ysgolion pan fydd cyfyngiadau ar niferoedd dysgwyr, a dylai cyflogwyr gynnal asesiadau risg.

**Dychwelyd i'r gwaith**

Bydd rhai aelodau o staff yn dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod mamolaeth ac ni fyddant wedi cael y profiad o ddysgu gartref yn yr un modd â'u cydweithwyr.

Mae arbenigwyr wedi rhybuddio bod COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl mamolaeth y tu hwnt i'r hyn a welir ymhlith y boblogaeth gyffredinol, lle mae cyfraddau gorbryder wedi mwy na dyblu. Dylid ystyried sut y cânt eu hailgyflwyno i'r gweithlu.

**Mannau crefyddol**

Mae ein canllawiau gweithredol yn nodi y dylid defnyddio unrhyw ofod sydd ar gael i helpu staff a dysgwyr i gadw pellter cymdeithasol. Lle y caiff ystafelloedd eu haildrefnu o bosibl, dylid sicrhau bod mannau crefyddol ar gael at ddefnydd y staff ar adegau disgwyliedig o'r dydd.

**Llesiant**

Cydnabyddwn fod sicrhau llesiant staff pan fo gweithrediadau ysgol yn cynyddu yn hollbwysig. Mae Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan yn galluogi staff i ystyried eu hiechyd a'u llesiant, a deall eu risg bersonol o ddatblygu symptomau mwy difrifol os byddant yn dod i gysylltiad â feirws COVID-19 fel rhai isel, uchel neu uchel iawn.

**Cartrefi incwm isel**

Bu angen i rai aelodau o staff fynd ar ffyrlo pan gaewyd ysgolion, a allai fod wedi lleihau eu hincwm misol, ond disgwylir iddynt allu dychwelyd i'r gwaith wrth i weithrediadau ysgol / AB gynyddu, ac ennill eu cyflog blaenorol.

**Cofnod o effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:**

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Oedran | Gall y ffaith na ellir mynychu'r ysgol ac na ddilynir trefn arferol gael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc – cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant llawn pan gaewyd ysgolion ym mis Ionawr 2021. | Plant a phobl ifanc yw'r grwpiau y mae cau ysgolion a cholegau yn effeithio arnynt fwyaf. | Byddwn yn adeiladu ar yr Asesiad Effaith a ddatblygwyd pan gaewyd ysgolion ym mis Ionawr 2021 ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n parhau i gael eu haddysgu o bell. |
| | Gall yr angen i ddarparu gofal plant a chymorth ychwanegol i'w plant wrth ddysgu gartref gael effaith andwyol ar oedolion o oedran gweithio.<br><br>Bydd rhai o'r rhieni hyn wedi gorfod defnyddio gwyliau neu hyd yn oed chwilio am waith arall os nad oedd modd iddynt weithio o gartref, a allai yn ei dro gynyddu nifer y cartrefi incwm isel. | Mae'r penderfyniad i gau ysgolion wedi golygu bod llawer o rieni sy'n gweithio nad ydynt yn weithwyr hanfodol wedi gorfod gwneud trefniadau â'u cyflogwyr i newid patrymau a lleoliadau gwaith. | Rydym yn parhau i ddefnyddio ymgyrchoedd, a rhwydweithiau, i rannu gwybodaeth a chyngor â rhieni, er enghraifft ymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo, a ddefnyddir i gyfleu negeseuon i rieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; a'n rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta, a Gofal Plant. |
| | Gall yr angen i ddarparu help ychwanegol gyda gofal plant, a chymorth i ddysgu gartref, gael effaith | Gofynnwyd i neiniau a theidiau helpu gyda gofal plant a dysgu gartref lle nad yw rhieni sy'n gweithio | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | andwyol ar bobl hŷn sydd wedi ymddeol sy'n helpu i ofalu am wyrion ac wyresau. | wedi gallu gwneud trefniadau amgen. | |
| Oedran | Bydd y penderfyniad i gynyddu gweithrediadau ysgol/AB yn gofyn am gael mwy o staff ar safleoedd ysgol. Gall hyn gynnwys aelodau o staff hŷn, sy'n wynebu risg uwch o ddatblygu symptomau mwy difrifol yn sgil COVID-19. | Er bod hyn yn galluogi staff i ailddechrau addysgu dysgwyr wyneb yn wyneb, mae oedran yn ffactor wrth bennu'r risg o ddatblygu symptomau mwy difrifol yn sgil COVID-19. | Mae Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan a ddatblygwyd ar y cyd â'r sector yn ystyried oedran, ac yn helpu'r unigolyn a'i gyflogwr i gymryd camau ychwanegol i liniaru'r risgiau hyn. Mae hyn uwchlaw'r mesurau lliniaru a gyflwynir ar gyfer dysgwyr, staff a phobl eraill ar safleoedd ysgolion.<br><br>Bydd i'r adnodd asesu risg oblygiadau uniongyrchol a hirdymor i'r unigolion hynny sy'n asesu eu ffactorau risg personol. Yn y tymor hwy, bydd rhai pobl a allai fod wedi bod mewn perygl wedi'u diogelu rhag salwch difrifol, neu hyd yn oed farw, oherwydd COVID-19. Yn ogystal â'r camau uniongyrchol a gymerir, yn y tymor hwy bydd unigolion yn gallu nodi a deall gwelliannau ffordd o fyw a allai gael effeithiau tymor hwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ar eu hiechyd a'u llesiant. |
| Anabledd | Gall y ffaith nad ydynt yn mynychu'r ysgol na'r coleg gael effaith fwy andwyol ar blant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol neu arbennig. | Mae darparwyr addysgol neu awdurdodau lleol (gan gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol plant) wedi nodi y gallai dysgwyr agored i niwed gael budd o barhau i fynychu'r ysgol neu'r coleg yn llawn amser. | Gall plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed neu sydd â datganiad AAA fynychu eu hysgol neu goleg arferol o hyd. Nodir yr eithriad hwn yn y Rheoliadau.<br><br>Mae hyn yn lliniaru rhai o effeithiau bod heb y cyfarpar a'r cymorth arferol sydd ar gael yn yr ysgol neu'r coleg, ond ni all fynd i'r afael yn llwyr â'r materion sy'n codi yn sgil y ffaith bod llai o ryngweithio cymdeithasol, ac o bosibl newid i'r drefn arferol. |
| | Gall yr angen i ddarparu gofal plant a chymorth ychwanegol pan fo ysgolion ar gau gael effaith andwyol anghymesur ar rieni a gofalwyr ag anableddau. | Gall anableddau corfforol ac anableddau dysgu effeithio ar allu rhiant i gyflawni rôl gofalwr ac addysgwr yn llawn amser, hyd yn oed am gyfnod byr. | |
| | Bydd y penderfyniad i gynyddu gweithrediadau ysgol/AB yn gofyn am gael mwy o staff ar safleoedd ysgol. Gall hyn gynnwys staff ag anableddau. | Mae'n debygol y bydd angen i fwy o staff ysgol sydd ag anableddau corfforol gymryd rhagofalon wrth ddychwelyd i'r ysgol na staff ysgol heb anabledd. | Yn ein canllawiau gweithredol, pwysleisiwn y dylai staff siarad â'u cyflogwyr am sut byddant yn cael eu cefnogi. Bydd hyn yn hynod bwysig lle mae bellach yn ofynnol i staff ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb. |
| Ailbennu Rhywedd | Dim. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Gall yr angen i ddarparu gofal plant ychwanegol a chymorth i ddysgu gartref gael effaith andwyol ar fenywod beichiog a'r rhai â phlant bach iawn a phlant hŷn sy'n mynychu'r ysgol neu goleg.<br><br>Mae'r rheini sydd wedi dod yn ofalwyr di-dâl yn fwy tebygol o fod yn fenywod, yn iau ac â phlant bach. Mae llwyth o alwadau wedi bod ar eu hamser, sydd wedi bod yn anodd o ran eu iechyd corfforol a'u hiechyd meddwl, ac sydd wedi rhoi pwysau ychwanegol ar eu cydberthnasau, eu sefyllfa ariannol a'u gallu i wneud gwaith â thâl. | Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: *Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol*, Hydref 2020 | Rydym yn defnyddio ymgyrchoedd, a rhwydweithiau, i rannu gwybodaeth a chyngor â rhieni, er enghraifft ymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo, a ddefnyddir i gyfleu negeseuon i rieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; a'n rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta, a Gofal Plant. |
| | Bydd y penderfyniad i gynyddu gweithrediadau ysgol/AB yn gofyn am gael mwy o staff ar safleoedd ysgol. Gall hyn gynnwys staff beichiog. | Mae menywod beichiog yn perthyn i'r categori o bobl sy'n wynebu risg uwch, ac fe'u cynghorir i ddilyn y cyngor uchod yn gyffredinol, sy'n gymwys i bob aelod o staff mewn ysgolion a'r cyngor i'r cyhoedd, ond wrth wneud hynny byddwch yn | Yn ein canllawiau gweithredol rydym wedi nodi y dylai staff beichiog a'u cyflogwyr ddilyn y cyngor yn COVID-19: advice for pregnant employees. Mae hyn ochr yn ochr ag Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymwybodol eu bod yn wynebu mwy o risg | |
| Hil | Gall yr angen i ddysgu o bell, yn enwedig cael gafael ar dechnoleg, gael effaith andwyol ar rai dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, gan gynnwys disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: *Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol*, Hydref 2020 | Fel rhan o'r rhaglen ‘Cadw'n Ddiogel. Dal Ati i Ddysgu’, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.<br><br>Darparwyd £3m ychwanegol i gefnogi'r dysgwyr hyn yn 2020.<br><br>Hefyd, anogir ysgolion a lleoliadau i sicrhau eu bod yn cyfathrebu â rhieni/gofalwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys opsiynau nad ydynt yn ddigidol i'r rhieni/gofalwyr hynny nad oes ganddynt y dechnoleg angenrheidiol. |
| | Bydd y penderfyniad i gynyddu gweithrediadau ysgol/AB yn gofyn am gael mwy o staff ar safleoedd ysgol. Gall hyn gynnwys unigolion o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, sy'n wynebu risg uwch o ddatblygu symptomau mwy | Er bod y cynnig hwn yn galluogi staff i ailddechrau addysgu dysgwyr wyneb yn wyneb, mae ethnigrwydd yn ffactor wrth bennu'r risg o ddatblygu symptomau mwy difrifol yn sgil COVID-19. | Mae Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan a ddatblygwyd ar y cyd â'r sector yn ystyried oedran, ac yn helpu'r unigolyn a'i gyflogwr i gymryd camau ychwanegol i liniaru'r risgiau hyn. Mae hyn uwchlaw'r mesurau lliniaru a gyflwynir ar gyfer dysgwyr, staff a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | difrifol yn sgil COVID-19. | | phobl eraill ar safleoedd ysgolion.<br><br>Bydd i'r adnodd asesu risg oblygiadau uniongyrchol a hirdymor i'r unigolion hynny sy'n asesu eu ffactorau risg personol. Yn y tymor hwy, bydd rhai pobl a allai fod wedi bod mewn perygl wedi'u diogelu rhag salwch difrifol, neu hyd yn oed farw, oherwydd COVID-19. Yn ogystal â'r camau uniongyrchol a gymerir, yn y tymor hwy bydd unigolion yn gallu nodi a deall gwelliannau ffordd o fyw a allai gael effeithiau tymor hwy ar eu hiechyd a'u llesiant. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Gall y penderfyniad i gau ysgolion neu golegau gael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgolion neu golegau crefyddol eu natur, lle mai dyma'r unig gyfle a gânt i gyd-addoli neu i gael unrhyw ddysgeidiaeth arall sy'n bwysig i'r unigolion hynny. | Efallai mai'r ysgol neu'r coleg yw'r unig gyfle a gaiff rhai plant a phobl ifanc i arfer crefydd gyda'u cyfoedion. | Drwy Hwb, llwyfan dysgu digidol Cymru, gall dysgwyr ac ymarferwyr o ysgolion a gynhelir gael gafael ar amrywiaeth o adnoddau dysgu ar-lein.<br><br>Gall fideo-gynadledda ddarparu profiad rhyngweithiol a chyfle i ddod ynghyd ac arfer crefydd drwy'r ysgol neu'r coleg mewn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ffordd ddiogel a hygyrch. |
| | | | |
| Rhyw / Rhywedd | Mae menywod yn fwy tebygol o ysgwyddo baich gofal plant ychwanegol a dysgu gartref, hyd yn oed os ydynt yn gweithio, na dynion. | Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: *Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol*, Hydref 2020 | Rydym yn defnyddio ymgyrchoedd, a rhwydweithiau, i rannu gwybodaeth a chyngor â rhieni, er enghraifft ymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo, a ddefnyddir i gyfleu negeseuon i rieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; a'n rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta, a Gofal Plant. |
| | Bydd y penderfyniad i gynyddu gweithrediadau ysgol yn gofyn am gael mwy o staff ar safleoedd ysgol. Gall hyn gynnwys dynion, sy'n wynebu risg uwch o ddatblygu symptomau mwy difrifol yn sgil COVID-19. | Er bod hyn yn galluogi staff i ailddechrau addysgu dysgwyr wyneb yn wyneb, mae oedran yn ffactor wrth bennu'r risg o ddatblygu symptomau mwy difrifol yn sgil COVID-19. | Mae Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan a ddatblygwyd ar y cyd â'r sector yn ystyried oedran, ac yn helpu'r unigolyn a'i gyflogwr i gymryd camau ychwanegol i liniaru'r risgiau hyn. Mae hyn uwchlaw'r mesurau lliniaru a gyflwynir ar gyfer dysgwyr, staff a phobl eraill ar safleoedd ysgolion.<br><br>Bydd i'r adnodd asesu risg oblygiadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | uniongyrchol a hirdymor i'r unigolion hynny sy'n asesu eu ffactorau risg personol. Yn y tymor hwy, bydd rhai pobl a allai fod wedi bod mewn perygl wedi'u diogelu rhag salwch difrifol, neu hyd yn oed farw, oherwydd COVID-19. Yn ogystal â'r camau uniongyrchol a gymerir, yn y tymor hwy bydd unigolion yn gallu nodi a deall gwelliannau ffordd o fyw a allai gael effeithiau tymor hwy ar eu hiechyd a'u llesiant. |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim. | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim. | | |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Cynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant wrth benderfynu cau ysgolion ym mis Ionawr ar wahân. | Plant a phobl ifanc yw'r grwpiau y mae cau ysgolion a cholegau yn effeithio arnynt fwyaf. | Byddwn yn adeiladu ar y materion a nodwyd yn yr Asesiad Effaith ac mae Asesiad Effaith llawn ar gael ar wahân. |
| Cartrefi incwm isel | Gall y penderfyniad i gau ysgolion a cholegau gael effaith andwyol anghymesur ar ddysgwyr o gartrefi | Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19, *Defnydd o'r rhyngrwyd a sgiliau digidol* | Fel rhan o'r rhaglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal Ati i Ddysgu', mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | incwm isel lle na allant gael gafael ar ddyfeisiau digidol na mynd ar-lein i'r graddau sydd eu hangen. | | awdurdodau lleol i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.<br><br>Darparwyd £3m ychwanegol i gefnogi'r dysgwyr hyn yn 2020.<br><br>Hefyd, parheir i annog ysgolion a lleoliadau i sicrhau eu bod yn cyfathrebu â rhieni/gofalwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys opsiynau nad ydynt yn ddigidol i'r rhieni/gofalwyr hynny nad oes ganddynt y dechnoleg angenrheidiol dros y cyfnod hwn pan fydd rhai dysgwyr yn dal i gael eu haddysgu o bell, tra bydd eraill yn dychwelyd i'r ysgol. |
| | Efallai na fydd gan rieni o gartrefi incwm isel yr holl adnoddau deallusol sydd eu hangen i gefnogi eu plant i ddysgu gartref. | | Drwy Hwb, llwyfan dysgu digidol Cymru, gall dysgwyr ac ymarferwyr o ysgolion a gynhelir gael gafael ar amrywiaeth o adnoddau dysgu ar-lein. Gall defnyddio apiau drwy Hwb ddarparu profiad rhyngweithiol a chyfle i gydweithio ac ymgysylltu mewn ffordd ddiogel a hygyrch. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Efallai y bydd y penderfyniad i gau ysgolion yn cael effaith andwyol ar ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. | Mae rhai teuluoedd yn dibynnu ar brydau ysgol am ddim er mwyn diwallu anghenion maeth ac iechyd eu plant. | Dylai awdurdodau lleol gofio bod eu dyletswyddau cyfreithiol i ddarparu prydau ysgol am ddim yn parhau er bod ysgolion ar gau.<br><br>Hefyd, wrth drefnu prydau ysgol am ddim ar gyfer dysgwyr cymwys, rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau na all dysgwr gael ei adnabod gan neb, heblaw unigolyn sydd wedi'i awdurdodi o dan y ddeddfwriaeth, fel dysgwr sy'n cael cinio ysgol am ddim. |

**Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol**

Er bod y Rheoliadau yn ymrwymo hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1988 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae Llywodraeth Cymru o'r farn eu bod yn gyfiawn at ddiben atal lledaenu clefydau heintus a/neu caniateir yr ymyriad am ei fod ynghlwm wrth gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur.

Ymrwymir Erthygl 5 (hawl i ryddid), Erthygl 8 (parch am eich bywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) gan y Rheoliadau hyn.

Mae'r rhain i gyd yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen mewn cymdeithas ddemocrataidd er mwyn diogelu'r cyhoedd, neu ddiogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau unrhyw gyfryw gyfyngiadau a gofynion ar sail y ffaith eu bod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur.

Rhaid i unrhyw achos o ymyrryd â'r hawliau hyn hefyd gael ei gydbwyso â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (hawl i fywyd). Mae'n cydbwyso'r angen i barhau i ymateb i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws mewn ffordd briodol â hawliau unigolion a busnesau, mewn ffordd sy'n parhau i fod yn gymesur â'r angen i ostwng cyfraddau trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.